UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru 2000-2023 – Cymorth i fusnesau bach a chanolig



# Cyflwyniad

Mae cronfeydd yr UE wedi darparu cyllid a chymorth i helpu mentrau newydd, cefnogi cwmnïau bach a chanolig (gan gynnwys mentrau cymdeithasol) i ehangu a chael mynediad at farchnadoedd newydd, a mynd i'r afael â methiannau yn y farchnad drwy ddarparu cyllid ad-daladwy.

Clawr: Gweithdy Busnes Cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48986, ISBN digidol 978-1-83577-343-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Bu **Academi Busnes Gogledd Cymru** (£2.8 o gyllid yr UE) yn gweithio gyda 480 o berchnogion busnes a gweithwyr o dros 300 o gwmnïau yng ngogledd Cymru, gan eu cefnogi i wella eu perfformiad busnes drwy gynyddu sgiliau eu rheolwyr a gweithwyr eraill drwy ddarparu cyrsiau achrededig 'byr'.




*Academi Busnes Gogledd Cymru, Rob Williams, CREST*

Un cyfranogwr wnaeth elwa ar hyn oedd Rod Williams, y gweithiwr sydd wedi bod gyda Crest Co-operative Ltd am yr amser hiraf ac sydd bellach yn Rheolwr Gyfarwyddwr ar y cwmni. Sefydlwyd Crest Co-operative Ltd ym 1998, ac mae'n cefnogi dros 150 o bobl y flwyddyn i ddatblygu'n bersonol, yn gymdeithasol ac yn economaidd, gan gynnwys oedolion ag anableddau dysgu a chyn-filwyr.

Ymunodd Rod ag Academi Busnes Gogledd Cymru, gan fynychu'r cwrs Dadansoddi Busnes yn Strategol gan ei fod yn awyddus i adnewyddu prosesau a strategaeth y busnes a rhoi mwy o ffocws a strwythur iddo. Dywedodd:

"Mae ymuno ag Academi Busnes Gogledd Cymru wedi cael effaith wirioneddol a pharhaol – arnaf fi'n bersonol, ar y tîm ac ar Crest yn gyffredinol. Mae creu'r cynllun busnes fel dogfen fyw gyda mewnbwn gan y tîm arwain, yn ogystal â'r 30 o staff a gwirfoddolwyr, wedi gwneud yn siŵr bod y cynllun yn defnyddio dull gweithredu 'o'r gwaelod i fyny'. Mae hyn wedi annog y gweithlu i dderbyn y syniadau a mabwysiadu rhai arferion a ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys datblygu ffocws ar gynllunio ar gyfer olyniaeth."

Roedd **Rhaglen Cyflymu Twf** Llywodraeth Cymru yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi a datblygu busnesau newydd a busnesau bach a chanolig sydd â dyheadau a photensial twf uchel, gan gynnwys cwmni modurol Hi-Mark o Wrecsam.

Dywedodd Jack Yates, Rheolwr Gyfarwyddwr Hi-Mark: "Mae'r gefnogaeth rydyn ni wedi'i chael drwy Raglen Cyflymu Twf Busnes Cymru wedi bod yn amhrisiadwy i ni. Fe wnaeth ein helpu drwy gyfnod negodi anodd gyda chwsmer mawr, a'r canlyniad oedd i ni sicrhau archeb sylweddol na fyddem efallai wedi gallu ei hennill fel arall.

Drwy gael mynediad at arbenigwr gwerthu uchel ei barch roeddem yn gallu sefydlu fframwaith newydd ar gyfer y ffordd rydym yn mynd ati i werthu a rhwydweithio. Er mai dim ond newydd ddechrau mabwysiadu'r ffyrdd newydd hyn o weithio ydym ni, mae'r canlyniadau'n adrodd cyfrolau."

Roedd **Cronfa Fusnes Cymru** (£216m o gyllid yr UE), a oedd yn cael ei reoli gan Fanc Datblygu Cymru, yn cynnig amrywiaeth o gyllid ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru, neu a oedd yn fodlon symud i Gymru, gyda dros 450 o fusnesau'n cael buddsoddiad gwerth £216m a ariannwyd gan yr UE.

Roedd y gronfa'n darparu cyllid ar gyfer busnesau newydd yn ogystal â chyfalaf risg ar gyfer creu a thyfu cwmnïau sy'n ymgymryd ag ymchwil ac arloesi mewn sectorau twf allweddol fel gweithgynhyrchu uwch, gwyddorau bywyd ac iechyd. Roedd hefyd yn cefnogi busnesau bach a chanolig na fyddent fel arall wedi gallu cael gafael ar yr holl gyllid a oedd ei angen arnynt i fwrw ymlaen â chyfleoedd busnes hyfyw.

## Astudiaeth Achos



*Banc Datblygu Cymru, 3A's Leisure*

Yn 2017, 3A's Leisure yng Nghaerfyrddin oedd y busnes cyntaf yng ngorllewin Cymru i elwa ar gyllid Banc Datblygu newydd Cymru drwy Gronfa Busnes Cymru.

Bu'r buddsoddiad ym musnes carafannau a chartrefi modur 3A's Leisure o gymorth i ariannu'r broses o adleoli'r busnes i ystafelloedd arddangos pwrpasol ar safle 12 erw yng Nghaerfyrddin, ac at swyddi diogel.

Wedi'i sefydlu yn 1990 gan Lyn a Tegwen Evans, mae tair cenhedlaeth o'r teulu Evans bellach yn ymwneud â 3A's Leisure; yn cyflenwi carafannau a chartrefi modur newydd a rhai ail-law.

Dywedodd y Cyfarwyddwr, Lynn Evans: "Mae 28 mlynedd wedi mynd heibio ers i ni ddechrau gwerthu carafannau ym Mhencader. Bellach, rydym yn cyflogi 36 o staff, yn masnachu o ddau safle yng Nghaerfyrddin a Cross Hands, yn elwa o weithdy gwasanaeth pwrpasol ac yn gwerthu tua 1,000 o garafannau a chartrefi modur y flwyddyn.

"Mae'r cyllid gan y Banc Datblygu newydd wedi'i deilwra'n effeithiol i ddiwallu ein hanghenion penodol a bydd y buddsoddiad nawr yn ein helpu i adleoli o safle Ffordd Steffan yng Nghaerfyrddin i ystafelloedd arddangos pwrpasol newydd ar safle 12 erw ar faes sioe Caerfyrddin yn hydref 2018. Mae'n gyfnod cyffrous i ni wrth i ni geisio manteisio ar y galw cynyddol am gerbydau hamdden diolch i'w poblogrwydd a'u fforddiadwyedd cynyddol."

## Astudiaeth Achos



*Banc Datblygu Cymru, Freight Logistics Solutions*

Helpodd buddsoddiad gwerth £2.2 miliwn Cronfa Busnes Cymru gan Fanc Datblygu Cymru y busnes logisteg trafnidiaeth o Bont-y-pŵl, Freight Logistics Solutions (FLS) i ddatblygu eu technoleg unigryw ymhellach fel un o brif ddarparwyr datrysiadau cadwyni cyflenwi yn y DU ac arwain ar helpu i ddatgarboneiddio cludo nwyddau.

Yn cyflogi 40 o staff, mae FLS yn fusnes logisteg ysgafn o ran asedau, sy'n gweithredu'n bennaf o fewn gofod cludo nwyddau ffyrdd y DU a'r UE. Gyda rhwydwaith helaeth o gwmnïau cludo sy'n is-gontractio ledled y DU ac Ewrop, mae FLS yn cynnig ystod o fuddion i'w gwsmeriaid gan gynnwys tollau rhyngwladol, amseroedd ymateb cyflym, arbedion o ran cost, sicrwydd o ran lefelau gwasanaeth, a mwy o hyblygrwydd logisteg oherwydd gwell dealltwriaeth o ddata.

Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr, Ieuan Rosser: "Rydym yn angerddol am fod yn un o brif ddarparwyr datrysiadau cadwyni cyflenwi y DU yn ystod cyfnod unigryw a heriol i'r sector. Bydd y gefnogaeth hon gan y Banc Datblygu yn ein helpu i barhau â'n buddsoddiad mewn technoleg a seilwaith gweithredol i ddarparu llwyfan pellach ar gyfer twf er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cleientiaid."

## Astudiaeth Achos



*Banc Datblygu Cymru, Cwmni Da*

Cafodd hanner cant o swyddi eu diogelu yn un o gwmnïau cynhyrchu teledu mwyaf blaenllaw Cymru ar ôl i staff Cwmni Da gymryd perchnogaeth o'r busnes drwy Ymddiriedolaeth Perchnogaeth gan Weithwyr a wnaed yn bosibl gan fuddsoddiad o £750,000 drwy Gronfa Busnes Cymru gan Fanc Datblygu Cymru.

Mae Cwmni Da, a sefydlwyd yng Nghaernarfon ym 1996, yn gynhyrchydd pwysig sydd â hanes hir o wneud rhaglenni ffeithiol, adloniant, plant a drama, yn bennaf yn yr iaith Gymraeg i S4C ynghyd â chynnwys ar gyfer y BBC, Channel 4 a phartneriaid rhyngwladol, a hynny o'i ganolfan gynhyrchu o'r radd flaenaf yn Noc Fictoria.

Y cyd-sylfaenydd a'r rheolwr-gyfarwyddwr Dylan Huws yw unig berchennog y cwmni ers mis Rhagfyr 2017. Pan ymddiswyddodd dau o'i gyd-gyfarwyddwyr roedd yn awyddus i wneud yn siŵr bod y cwmni'n aros mewn dwylo Cymreig ac y byddai'r bobl oedd yn gweithio yno yn elwa o unrhyw drosglwyddiad perchnogaeth.

Dywedodd Mr Huws: "Rydym yn hynod ddiolchgar i'r Banc Datblygu am eu cefnogaeth amhrisiadwy ar adeg gyffrous yn hanes Cwmni Da.

"Mae'r gefnogaeth ariannol a gawsom wedi ein helpu i drawsnewid y cwmni yn Ymddiriedolaeth Perchnogaeth gan Weithwyr."

"Gyda chymorth y Banc Datblygu, rydym yn gwreiddio Cwmni Da hyd yn oed yn fwy cadarn yng Nghaernarfon fel y gall y cwmni barhau i ffynnu, gan ddarparu swyddi da, sy'n talu'n dda a chyfrannu at yr economi leol."

## Astudiaeth Achos



*Banc Datblygu Cymru, Camlas Farm Vets*

Bu modd i Camlas Farm Vets yn y Trallwng adleoli i eiddo mwy o faint, diolch i fenthyciad o £80,000 gan Fanc Datblygu Cymru, a wnaeth hefyd ddiogelu naw swydd yn y cwmni.

Mae'r practis milfeddygol annibynnol i anifeiliaid fferm, sy'n weithredol yn ardal Powys a Swydd Amwythig, yn cael ei redeg gan Amy McKie a'i chyd-bartneriaid Fflur ac Iolo. Mae trin anifeiliaid yn agos at eu calon ac maen nhw'n gweithio ochr yn ochr â ffermwyr i wneud y gorau o'u da byw a'u mentrau ffermio.

Roeddent wedi bod yn gweithredu o eiddo bach ond ymarferol am chwe blynedd, heb unrhyw ffordd o gynyddu capasiti a gwneud lle i staff cymorth ychwanegol yr oedd angen amdanynt wrth i'r busnes dyfu.

Dywedodd Amy: "Mae'r eiddo newydd yn dal yn hawdd iawn ei gyrraedd ac mae'n agos at y farchnad da byw leol. Rydyn ni wedi adnewyddu byngalo at ddefnydd masnachol. Er ein bod yn trin yr anifeiliaid oddi ar y safle fel arfer, yn ystod y tymor wyna mae'n arferol i ffermwyr ddod â mamogiaid sy'n cael trafferth wyna i'r practis. Un o'r pethau rydyn ni'n defnyddio'r benthyciad ar ei gyfer yw troi un o'r ystafelloedd yn theatr llawdriniaethau."

Ychwanegodd Amy: "Mae'r benthyciad gan Fanc Datblygu Cymru wedi bod yn hynod o bwysig. Mae'r ffaith bod y benthyciad wedi'i strwythuro i'n hanghenion busnes wedi ein galluogi ni i adleoli, i ddiogelu swyddi ac i gynllunio ar gyfer tyfu yn y dyfodol.

Roedd y cynllun **Cymorth Entrepreneuriaeth** (£24.8m o gyllid yr UE) dan arweiniad Busnes Cymru yn darparu cymorth busnes un-i-un wedi'i deilwra i tua 200,000 o bobl, gan gynnwys arweinwyr busnesau, entrepreneuriaid a phobl sy'n awyddus i lwyddo'n fasnachol. Mae'r cynllun wedi creu dros 3,800 o fentrau newydd, 19,000 o swyddi newydd ac wedi cefnogi cynnydd gwerth £241 miliwn mewn allforion.

## Astudiaeth Achos

Ar ôl dianc rhag rhyfel Wcráin ac adleoli i Gymru, roedd Oleksandra Ivanchenko yn benderfynol o ailgydio yn ei busnes, Mimimade.ua, a oedd yn cynhyrchu ac yn gwerthu teganau meddal.

Cysylltodd â Busnes Cymru i gael cymorth i ddechrau busnes er mwyn ei galluogi i ailadeiladu ei busnes yng Nghymru. Cafodd ei chefnogi gan gynghorydd Busnes Cymru ar faterion fel cyllid, trethi a marchnata'r busnes, yn ogystal â chael gafael ar gyfieithiad Wcreineg o'r weminar Dechrau Busnes.

"Ar ôl ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin, rydw i'n ddiolchgar iawn i Busnes Cymru am y cymorth a gefais i ddechrau fy musnes fy hun."

Fe wnaeth cynghorydd Oleksandra ei chefnogi gyda'r broses o wneud cais am y Grant Rhwystrau i Ddechrau Busnes ar gyfer pobl 25 oed a hŷn. Llwyddodd i gael cyllid, a wnaeth ei galluogi i brynu peiriant gwnïo a bwrdd gwnïo, gan ei chaniatáu i ddechrau masnachu yng Nghymru.

## Astudiaeth Achos



*Busnes Cymru, Spike the Blacksmith*

Sefydlodd Spike Blackhurst – artist, gof ac athrawes – ei busnes, Spike the Blacksmith, yn 2003, gan greu darnau anarferol ac unigol o waith.

Yn ogystal ag addysgu amrywiaeth o gyrsiau crefft gof artistig o'i gweithdy ym Mhowys, mae Spike yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar y cyd â thîm Syniadau Mawr Cymru, gan fentora pobl ifanc fel model rôl entrepreneuriaeth busnes.

Ar ôl rhai blynyddoedd o fasnachu, cysylltodd Spike â Busnes Cymru i sicrhau bod ei busnes yn datblygu ac yn tyfu yn y cyfeiriad iawn.

Fe wnaeth ei mentor ei chefnogi gyda chynllunio busnes, cynllunio ariannol, marchnata a brandio i wneud yn siŵr ei bod ar y trywydd iawn i sicrhau twf cynaliadwy.

Yn ogystal, trafodwyd Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a roddwyd ar waith gan Spike, gan lynu wrth arferion a gweithdrefnau Adnoddau Dynol, a oedd yn cynnwys darparu gwasanaeth i gwsmeriaid.

## Astudiaeth Achos



*Busnes Cymru, By the Wye*

“Roedd y cynghorwyr o Busnes Cymru yn hynod o barod i helpu gyda’n busnes glampio newydd, gan ein cefnogi gyda’u harbenigedd, eu cysylltiadau, eu cyrsiau a’u hadnoddau. Fe wnaethant weithredu fel ysgogwyr annibynnol, gan sicrhau ein bod yn cadw ffocws a’n tywys ni bob cam o’r ffordd.”

Darparwr llety glampio ar ben coed yn y Gelli Gandryll yw By the Wye, ac mae’n cael ei redeg gan Dawn a Edith Farnworth a gysylltodd â Busnes Cymru ynghylch sut y gallent wella effeithiau amgylcheddol eu busnes.

Gyda’r gefnogaeth a gawsant gan gynghorwyr arbenigol Busnes Cymru, maent wedi cyflwyno polisi amgylcheddol newydd, ac nid oes plastig untro ar y safle ac maent yn annog ymwelwyr i ddefnyddio siopau lleol, cynnyrch lleol a thrafnidiaeth gyhoeddus lle bo hynny’n bosibl, ac mae bioamrywiaeth y safle’n cynyddu’n sylweddol ynghyd â’u rhaglenni rheoli coetiroedd a phlannu coed parhaus.

Mae’r busnes hefyd wedi ennill nifer o wobrau oherwydd ei ethos a’i agwedd ragorol tuag at gynaliadwyedd a rheoli safle.

## Band eang cyflym iawn

Er y bu'n rhaid i siop fwyd Arundales, a agorwyd ym 1887 ym Mae Colwyn, gau ei drysau, mae'n dal i redeg fel presenoldeb ar-lein gyda chymorth Cyflymu Cymru i Fusnesau a ariannwyd gan yr UE.



*Cyflymu Cymru i Fusnesau, Arundales Dairy*



*Cyflymu Cymru i Fusnesau, Arundales Dairy*

Pan ddaeth COVID ac y dechreuodd cwsmeriaid cyfanwerthu ganslo archebion wrth i ysgolion, colegau a thwristiaeth a lletygarwch wynebu cyfnod clo, gallai hynny fod wedi bod yn ergyd farwol i'r busnes.

Fodd bynnag, daeth y gymuned leol i'r adwy wrth i bobl foddi'r cwmni ag archebion yn ystod y cyfnod clo ac roedd Arundales yn danfon ffrwythau a llysiau i rhwng 70 a 90 o bobl bob dydd.

Heb unrhyw gyfleuster ar eu gwefan i archebu na thalu ar-lein, penderfynodd y perchennog Wende fynd ar gyrsiau ar-lein rhad ac am ddim Cyflymu Cymru i Fusnesau, a wnaeth ei chefnogi i ddiweddaru'r wefan, gan ei gwneud yn haws ei defnyddio a chaniatáu i bobl archebu a thalu am focsys ffrwythau a llysiau ar-lein.

Dywedodd Wende, "Rwy'n diweddaru'r wefan yn rheolaidd gyda chynnwys, ac erbyn hyn mae gennyf flog ac rwy'n anfon negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'n eithaf anhygoel sut mae'r cyfan wedi dod at ei gilydd, gydag archebion o'r wefan, drwy Facebook a Google My Business, yn ogystal â'r ffôn, sy'n cael ei ffafrio gan ein cwsmeriaid hŷn gan nad yw llawer ohonynt yn bancio ar-lein ac yn ei chael yn anodd archebu ar-lein."

"Doedden ni ddim yn disgwyl y cyfnod clo. Doedden ni ddim wedi paratoi ar ei gyfer. Ond daeth y busnes i chwilio amdanom ni ac mae archebion eildro wedi ein cynnal yn ystod y trydydd cyfnod clo. Os gall busnes teuluol lleol 124 oed addasu i newid a defnyddio technoleg ddigidol i ysgafnu rhywfaint ar y baich, yna gall unrhyw un wneud hynny. Mae Cyflymu Cymru i Fusnesau yn rhad ac am ddim, ac rwy'n ei argymell yn fawr."

Mae busnesau cymdeithasol yn elfen bwysig o economi Cymru, gan ganolbwyntio ar yr effaith ar bobl neu'r amgylchedd, mynd i'r afael â materion lleol wrth gynhyrchu elw sy'n cael ei fuddsoddi yn ôl yn y gymuned. Mae mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol a busnesau sy'n eiddo i weithwyr yn creu newid cadarnhaol ac yn creu cymunedau cryfach a chyfoethocach yng Nghymru.

Roedd **Cronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol** WCVA (SBGF) (£2.3m o gyllid yr UE) a reolir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), yn cefnogi twf busnesau cymdeithasol yng Nghymru ac yn helpu i ddatblygu cynnyrch, gwasanaethau a marchnadoedd newydd. Roedd buddsoddiadau drwy'r gronfa'n cynnwys cymysgedd o gyllid grant a chyllid ad-daladwy, gyda chymhellion ariannol i fusnesau cymdeithasol a oedd yn rhagori ar y targedau creu swyddi.




*Y Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol, Oriel Cube*

Gyda chymorth ariannol gan yr SBGF, agorodd y mudiad nid-er-elw CUBE (Community United Barry 4 Everyone) 'The Gallery', caffi cymunedol a gofod digwyddiadau yn y Barri.

Mae CUBE, a ffurfiwyd fel roedd y cyfnod clo cyntaf yn cyrraedd Cymru yn 2020, sef grŵp o 28 o bobl leol, wedi bod yn darparu gwasanaethau hanfodol i'r gymuned drwy gydol argyfwng y coronafeirws, gan ddarparu achubiaeth i'r gymuned yn y Barri yn ystod y pandemig.

Mae 'The Gallery', a lansiwyd ym mis Hydref 2021, bellach yn darparu canolfan weithredu y mae mawr ei hangen ar gyfer y prosiect yn ogystal â helpu i gynhyrchu incwm, gan gynnig lleoliad modern ar gyfer digwyddiadau. Mae caffi ar wahân yn darparu gofod cymunedol i helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd, lle gall pobl bicio i mewn am sgwrs a choffi, neu dalu am ' goffi wedi'i ohirio' i rywun mewn angen.

Daeth Janet (newidiwyd ei henw i beidio datgelu pwy yw hi), a oedd yn cael trafferth gydag ymddygiad ei phlentyn yn ystod y cyfnod clo, at CUBE i ofyn am gymorth.

Dywedodd Janet, "Rwy'n ddiolchgar iawn am y gefnogaeth a gefais gan CUBE. Mae fy mhlentyn wedi cael cefnogaeth anhygoel ac mae fy nghartref yn le hapusach a thawelach."

Bydd y lleoliad newydd yn caniatáu i CUBE barhau i wneud gwahaniaeth i deuluoedd ac unigolion sy'n byw gyda phroblemau iechyd meddwl, hunanladdiad, galar a cholled, cam-drin domestig a sylweddau neu fod hynny'n effeithio arnynt, gan eu galluogi i ddarparu eu gwasanaethau'n well i'r gymuned.

Cefnogodd cronfa **Busnes Cymdeithasol Cymru** Cwmpas y gwaith o greu busnesau cymdeithasol newydd sy'n eiddo i'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu ac sy'n cael eu rheoli ganddynt, ac ennill elw y gellir ei ail-fuddsoddi yn y cymunedau hynny a chreu swyddi y mae mawr eu hangen.

## Astudiaeth Achos

Sefydlwyd y fenter gymdeithasol o Ogledd Cymru, Outside Lives, i gysylltu aelodau o'r gymuned i ddathlu ac amddiffyn y byd naturiol, gan ofalu am y Ddaear drwy gynyddu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o'r amgylchedd lleol.

Mae'n darparu gofod a gweithgareddau permaddiwylliant awyr agored sy'n hyrwyddo ffordd o fyw a thechnegau cynaliadwy i ysbrydoli aelodau i gyfyngu ar eu hôl troed carbon. Mae'n darparu sesiynau ymlacio a lles, dosbarthiadau garddio, gweithdai crefftau a gweithgareddau sgiliau coginio i bobl ar y cyrion a'u teuluoedd, ar draws Sir y Fflint a Sir Ddinbych yng Ngogledd Cymru.

Cysylltodd Outside Lives â Busnes Cymdeithasol Cymru i gefnogi ei dwf cyflogaeth a gwirfoddoli. Comisiynodd y tîm Easy Read UK i gynhyrchu fersiynau hawdd eu darllen o dri pholisi (Polisi a Gweithdrefn Ddisgyblu, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a Pholisi Iechyd a Diogelwch). Fe wnaeth Busnes Cymdeithasol Cymru hefyd helpu i gynhyrchu fersiynau fideo wedi'u hanimeiddio o'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn er mwyn cysylltu'n well â phobl ag anableddau dysgu. Ar ben hynny, fe wnaeth Busnes Cymdeithasol Cymru helpu Outside Lives i wneud cais am gyllid grant i gynhyrchu hysbyseb recriwtio, disgrifiad swydd a ffurflen gais mewn fformat hawdd ei ddarllen er mwyn eu galluogi i gyflogi pobl ag anableddau dysgu.

Mae'r gefnogaeth hon wedi helpu Outside Lives i greu ffyrdd mwy cynhwysol i aelodau agored i niwed o'r gymuned gymryd rhan yn y prosiect, gan leihau'r rhwystrau rhag cynhwysiant a helpu mwy o aelodau'r gymuned i gadw mewn cysylltiad nag erioed o'r blaen.

*Outside Lives*



*Outside Lives*